


Yn Ffair Lyfrau y Gymdeithas a gynhaliwyd yn y Bala, ymddangosodd copi o *Y Bibl Cyssegr Lan* (1620); argraffiad sydd ddim mor brin â chyfieithiad William Morgan ond eto yn ddigon diddorol. Un o'r trysorau sy'n cael ei arddangos yn Eglwys Sant Pedr, Llanbedr-y-cennin ydi Beibl 1620, neu Beibl yr Esgob Richard Parry fel yr adnabyddir ef, er bod ysgolheigion Cymreig heddiw yn cytuno bod y rhan fwyaf o'r clod am y cyfieithiad yma yn ddyledus i'r curad ar y pryd, sef John Davies, a ddaeth yn nes ymlaen yn un o ysgolheigion enwocaf Cymru, sef y Dr. John Davies o Fallwyd. Dywedodd John Davies yn wylaidd am ei gyfraniad i'r cyfieithiad yma ei fod fel 'disgybl annheilwng i'r Gamaliel hwnnw - y Dr. William Morgan'. Beibl 1620 yw'r ail gyfieithiad ar ôl Beibl William Morgan (1588) wedi ei argraffu mewn 'llythren ddu' (black letter), ac yn cynnwys Rhagymadroddion Morgan a Parry mewn Lladin, gyda chalendr 32 mlynedd, tudalennau teitlau i'r Hen Destament a'r Testament Newydd. Mae yna nifer o ysgrythriadau a llythrennau arweiniol (*initial letters*) yn y gwaith. Cyfrifid cyfieithiad 1620 fel yr argraffiad Cymraeg swyddogol yn dilyn argraffiad Saesneg 1612, sef fersiwn y Brenin Iago I, ac yn wir y mae llawer o'r ysgrythriadau wedi eu benthg o'r argraffiad Saesneg yn yr un Cymraeg. Hefyd, Bonham Norton, argraffydd y Brenin oedd yn gyfrifol am argraffu y ddau. Argraffwyd

Stan Wicklen ar drywydd BEIBL Y MELINYDD



Beibl Richard Parry 1620

rhyw 800 i fil o gopiau o'r Beibl yma mewn ffurf ffolio ac fe glymwyd copi i bulpud yr eglwys.

Bu hanes diddorol i'r Beibl 1620 yma sydd i'w weld yn yr eglwys heddiw. Yn 1964, derbyniodd y rheithor ar y pryd, y Parch. Glyn Jones, alwad ar y teliffon oddi wrth ysgolfeistr yn

Abergele. Neges am y Beibl oedd gan y prifathro - Beibl arbennig, sef copi o Feibl yr Esgob Richard Parry, ac yn ôl llythyr o fewn y llyfr, cyfeiriwyd at y ffaith bod y Beibl yma wedi bod ar asgell Eglwys Llanbedr-y-cennin flynyddoedd yn ôl. Roedd yn holi a oedd y rheithor yn awyddus i'w gael yn ôl. Derbyniodd Y Parch. Glyn Jones y cynnig caredig, ac felly daeth Beibl Dr. Parry yn ôl i'r eglwys.

Yn y llythyr Cymraeg, sydd i'w weld rhwng tudalennau Bibl 1620, fe welwn ychydig o hanes beth ddigwyddodd i'r Beibl arbennig yma cyn 1903. Yn ôl y llythyr, yn wreiddiol, yr oedd yr hen Feibl wedi'i rwyng mewn byrddau chwarter modfedd o drwch, ac arnynt groen llo blewog wedi'u hoelio â hoelion pres. Bu y copi hwn ar bulpud Eglwys Llanbedr-y-cennin, Dyffryn Conwy, ac yna daeth i feddiant y clochydd, yr hwn a adwaenid wrth yr enw Shôn Ffidl Dwrch. Melinydd oedd Shôn, a chuddiai yr hen Feibl yn y felin. Byddai fy nhad yn arfer mynychu y felin pan oedd yn fachgen, a phrynodd y Beibl gan Shôn. Fy nhad a'i rhwymodd yn ei ddiwyg presennol a'i ddwyllaw ei hun. Arwyddwyd y llythyr gan Peleg Ishmael Jones; wedi'i ddyddio 12.2.03. Daeth y Beibl i feddiant Peleg Ishmael Jones yn 1855, pan oedd yn bymtheg mlwydd oed fel rhodd medda fo, gan ei dad, a ofalodd am yr hen Feibl

drwy gydol ei oes. Ymddengys yn yr hen Feibl enwau Huw Jones 1741 a fu'n Rheithor yr eglwys o 1735 i 1744, a hefyd, rhyw John Prichard 1795, nad yw ar restr y rheithoriaid.


Pam, tybed, y cymerodd y clochydd a'r melinydd y Beibl 1620 a oedd wedi ei glymu gyda chadwyni i asgell y pulpud yn Eglwys Llanbedr? Yn ôl yr hanes bu adeg, tua diwedd y ddeunawfed ganrif, pan fu cryn dipyn o ymosod ar Feiblau Cymraeg o fewn eglwysi yng Nghymru, a chafodd nifer o'r Beiblau eu llosgi. Gorchymynodd yr awdurdodau eglwysig Seisnig bod Beiblau Saesneg i'w gosod ar y pulpudau yn lle y rhai Cymraeg, a hefyd bod y gwasanaethau i'w cynnal yn Saesneg. Tybed mai ymateb i hyn yr oedd Shôn Ffidl Dwrch, clochydd yr eglwys a melinydd pentref Tal-y-bont yn Nyffryn Conwy, pan gymerodd ar ei liwt ei hun y cyfrifoldeb o symud yr hen Feibl a'i guddio yn ei felin rhag iddo gael ei ddiinstrio gan yr awdurdodau eglwysig?

Pwy, felly, oedd Shôn Ffidl Dwrch? Yn ôl y diwedd Mr. Ivor Davies, yr hanesydd o Benmaen-mawr, enw cywir Shôn oedd John Roberts o Bant yr Ellyl a'i swydd, yn ogystal â bod yn glochydd yr eglwys, oedd dal tyrchod daer yn yr haf a chwarae'r ffidl yn y tafarndai yn y gaef, a hyn roddodd ei lysenw iddo. Felly, roedd yn gymeriad diddorol - yn chwarae ffidl yn y dafarn ar nos Sadwrn ac yn gwasanaethu fel clochydd yr eglwys ar y Sul! Dywed Mr. Davies bod nifer o ddisgynyddion Shôn yn Nyffryn Conwy ac ym Mhenmaen-mawr. Ar ôl ymadael â Llanbedr a Thal-y-bont ar ddiwedd ei yrfa fel melinydd aeth i fyw at ei ferch Margaret, a briododd â gŵr o'r Glyn, Dwygyfylchi. Cadwent y Red Lion oedd wrth droed Bwlch Sychnant. Pan wnaed y bont gan Telford dros yr afon yng Nghonwy yn 1826 gyda'r ffordd rownd troed y Penmaen Bach, gadawodd y goets fawr ffordd y Sychnant am y ffordd newydd isaf. Trosglwyddwyd trwydded y Red Lion i'r Ship - tafarn newydd ar y pryd a adeiladwyd ganddynt ar y ffordd newydd ar yr ochr orllewinol i'r Penmaen Bach. Yn y fan honno mae'n debyg, y daliodd y Shôn Ffidl Dwrch i ffidlo tan y diwedd! Mae bedd Shôn i'w weld ym mynwent y Tabernacl, Capel Tan-y-bwlch, Llechwedd, ger Conwy.

Y mae Beibl yr Esgob Richard Parry 1620 i'w weld yn Eglwys Sant Pedr, Llanbedr-y-cennin heddiw, yn ôl yn ei hen gynefin, yn ogystal â hanes John Roberts, y clochydd a'r melinydd a'i hachubodd ar gyfer y dyfodol.

Flora J.E.Griffith

Parhad o dudalen 3



ar astudiaethau beiolegol o ganlyniad i ddyllanwadau botanegwyr proffesiynol y prifysgolion, parhau i gasglu a chofnodi a wna'r amaturiaid nes i ffotograffiaeth ddod yn boblogaidd yn eu mysg gan ddisodli pwysigrwydd y *vasculum* (tun casglu). *Flora* J.E. Griffith oedd y gyfrol olaf o'i bath i gael ei chyhoeddi ar blanhigion yr hen sir Gaernarfon, ond yn 1985 cyhoeddodd R.H. Roberts, Bangor, *The flowering plants and ferns of Anglesey* a diddorol yw cymharu sefyllfa gwahanol blanhigion yr ynys ers dyddiau Griffith. Mae sôn wedi bod ers blynyddoedd bellach am yr angen am *flora* newydd i sir Gaernarfon, sir sy'n cynnwys cymaint o wahanol gynefinoedd o arfordir Llŷn a chorsydd Eifionydd i glogwyni Eryri. Mae'n eithaf posibl, os cyflawnir gwaith o'r fath, mai ar ddiwyg fodern drwy gyfrwng mapiau i ddangos dosbarthiad y gwahanol blanhigion fel y *Flora of Flintshire* (1993) gan Goronwy Wynne, y'i cyhoeddir.